# Fforwm Polisi DISQUS Cartrefi Cymunedol Cymru V1.0

Paratowyd gan Five Nines IT Consultancy LTD

08/11/2022

## Cefndir

Mae DISQUS yn blatfform/fforwm trafod a ddewiswyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) fel dull cyfathrebu a chydweithio gyda'i aelodau, fydd yn galluogi defnyddwyr i ddysgu, rhannu a thrafod pynciau yn ymwneud yn bennaf â'r sector tai. Caiff ei sefydlu yng ngwefan CHC er mwyn hwylustod a bydd yn cynnwys nifer o fyrddau trafod, gyda'r nifer hwn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol. Fel unrhyw 'sgwrs' seiliedig ar dechnoleg, mae ei effeithlonrwydd yn dibynnu ar ddeall yr hyn y mae ei aelodau yn ystyried yn ymddygiad derbyniol o fewn y fforwm. Caiff y fforwm ei gymedroli. Felly, dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol o'r canllawiau dilynol.

## Rheolau Ymddygiad

Mae CHC yn cadw'r hawl i ddileu unrhyw gyfraniad nad yw'n cyflawni'r rheolau ymddygiad hyn:

1. Dylai sylwadau a chyfraniadau ar edefyn neu bostiad ar y fforwm fod yn ddisgrifiadol, cryno a pherthnasol i'r drafodaeth neu bwnc y fforwm.

1.a. Er mwyn hwyluso sgwrs yn well, gall cymedrolwyr fel y dewisant symud edefyn nad yw ar y pwnc i fforwm arall addas, cau edefyn neu ddileu postiad heb fod ar y pwnc. Byddwn yn hysbysu'r defnyddiwr.

1.b. I gadw ansawdd trafodaethau, gellir dileu cyfraniadau nad ydynt â diben neu berthnasedd o sylwedd.

2. Mae CHC yn annog aelodau i gael trafodaethau a dadleuon agored ac onest. Ni fydd CHC yn ceryddu aelodau am fynegi barn o fewn cyfyngiadau'r rheolau ymddygiad yma. Fodd bynnag, dylai pob cyfathrebiad fod yn fonheddig a chwrtais. Dylai aelodau drin ei gilydd gan ddangos parch at bob safbwynt.

3. Ni chaniateir defnyddio'r fforwm i bostio, trosglwyddo neu roi hyperddolenni neu gyfeirwyr at ddeunydd y gwyddys ei fod yn anwir a/neu sarhaus, camarweiniol, anghywir, di-chwaeth, cas, aflonyddgar, anweddus, iaith fras, cyfeiriadau rhywiol, bygwth neu'n ymyrryd ar breifatrwydd unigolyn; sydd fel arfer yn torri unrhyw gyfraith; neu sy'n annog ymddygiad a ystyrir yn droseddol.

4. Caiff defnyddwyr eu hannog i drafod a rhannu gwybodaeth a phrofiadau busnes yn gysylltiedig â'r sector tai a thu hwnt os yn briodol. Os yw cyfranogwyr yn rhannu gwybodaeth ar Disqus, gall aelodau eraill ei gweld felly rhaid i aelodau beidio postio unrhyw beth sy'n gyfrinachol neu na ddylid ei rannu, ni weithredir rheolau Chatham House.

5. I ddiogelu preifatrwydd aelodau a phreifatrwydd pobl eraill ac i gydymffurfio gyda GDPR, ni all aelodau gynnwys gwybodaeth bersonol pobl eraill yn unrhyw un o safleoedd y fforwm. fodd bynnag, gallwch ddewis gwneud eich gwybodaeth bersonol eich hun yn gyhoeddus os dymunwch.

6. Hysbysebu: Os nad yn uniongyrchol berthnasol i bostiad, ni ddylid defnyddio fforymau i hysbysebu na hyrwyddo busnesau, cynnyrch na gwasanaethau o fewn y byrddau trafod.

7. Eiddo deallusol: Ni chaniateir defnyddio fforymau a blogiau i bostio deunydd a ddiogelir gan hawlfraint, nod masnach neu hawl perchnogol arall heb ganiatâd penodol perchennog/perchnogion yr hawlfraint, nos masnach neu hawl perchnogol arall.

8. Gall ymddygiad sarhaus ac sy'n aflonyddu neu unrhyw weithredoedd sy'n groes i'r rheolau ymddygiad hyn arwain at atal eich gallu i bostio i fforymau ac ardaloedd eraill ar gyfer cyfraniadau aelodau. Gellir apelio i Ganolwr os cafodd cyfrif ei atal.

9. Trafodaethau preifat: Weithiau mae edefyn trafod yn crwydro i ddialog gyfeillgar neu hyd yn oed ddadl wresog ymysg nifer fach iawn o ddefnyddwyr. Gofynnwn i chi fynd â'r trafodaethau hyn tu allan i'r fforwm.

## Cyswllt ag Aelodau

Er y gall fforymau fod yn ddefnyddiol yng nghyswllt rhannu gwybodaeth a chael mynediad i gymorth a chyngor rhwng CHC a'i aelodau, nid yw'n orfodol i ddefnyddwyr ymuno â'r fforym(au). Nid oes ychwaith unrhyw ofyniad i'r sawl sy'n cymryd rhan i ymateb tu allan i'w horiau gwaith, ac mae hyn yn berthnasol i holl aelodau'r fforwm. Os oes rhywun yn dewis ymateb tu allan i oriau gwaith bydd hyn o'u gwirfodd eu hunain ac ni fydd yn ddisgwyliad gan y fforwm. Rydym yn cydnabod ymholiadau wedi eu tagio sy'n nodi y

disgwyliant ymateb o fewn 2 diwrnod gwaith. Gall ymatebion llawn fod angen mwy o amser yn dibynnu ar gymhlethdod yr ymholiad a galluedd staff.

## Cyfrinachedd / Diogelu Data

Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n cymryd rhan i sicrhau fod y ddyfais a ddefnyddiant i gyrchu'r fforwm yn ddiogel h.y. o leiaf ddiogeliad cyfrinair / pin ac na chaiff y fforwm ei gadael ar agor i eraill ei gweld. Os oes cyfranogydd yn caniatáu i bobl eraill y tu allan i weld cynnwys y ffurflen, yna ystyrir bod hyn yn torri cyfrinachedd a chaiff y mater ei ymchwilio ymhellach. Mae'r rheolau ynghylch defnydd gwybodaeth yn debyg i gofnodion papur, negeseuon e-bost a galwadau ffôn, Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n cymryd rhan i gydymffurfio gydag egwyddorion diogelu data. Pan mae cyfranogiad aelod yn y fforwm yn dod i ben e.e. gadael y sefydliad, caiff cyfrif y defnyddiwr ei dynnu o'r fforwm sy'n atal mynediad i bostiadau hanesyddol.

## Cwynion

Mae rheolau a pholisi clir yn ei le; fodd bynnag, gallai fod achlysur lle mae sylwadau cyfranogwyr eraill yn peri tramgwydd i aelod fforwm a'u bod yn dymuno cwyno. Rhaid i'r achwynydd beidio ymateb na chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth sy'n peri tramgwydd iddynt. Bydd angen iddynt gysylltu â chymedrolwr y fforwm (CHC) enquiries@chcymru.org.uk i sicrhau eu bod yn gwybod am y sefyllfa a bydd y gweinyddydd perthnasol wedyn yn ymchwilio ymhellach ac yn cymryd unrhyw gamau y bernir yn rhesymol a chymesur, mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Ailadrodd rheolau'r fforwm wrth bawb sy'n cymryd rhan
- Trafod yn anffurfiol gyda chyfranogwyr perthnasol i sicrhau na chaiff unrhyw drafodaeth amhriodol ei hailadrodd
- Tynnu cyfranogwyr perthnasol o'r fforwm (yn dibynnu ar gyd-destun y sefyllfa)
- Cysylltu â sefydliad y cyfranogydd os bernir bod angen hynny

Diwedd.